Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I24 A. 16 mewn grym ar 6.3.2012 gan O.S. 2012/320, **ergl. 3(k)**

Treialu

17 Treialu hawliau plentyn i apelio neu i wneud hawliad **E+W**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu ar gyfer treialu darpariaethau Deddf Addysg 1996 (p. 56) a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd [^{F9}Deddf Cydraddoldeb 2010 (p.15)] fel y'u diwygir gan y Rhan hon am gyfnod a bennir yn y rheoliadau o hyd at 40 o fisoedd (“y cyfnod treialu”).
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddarparu (ymhlith eraill)—
 - (a) mai dim ond i blant y mae awdurdodau lleol penodedig yn gyfrifol amdanant y mae hawliau plentyn a roddir gan ddiwygiadau a wneir i Ddeddf Addysg 1996 gan y Rhan hon yn gymwys;
 - (b) mai dim ond i awdurdodau lleol penodedig y mae unrhyw ddyletswydd a osodir ar awdurdod lleol gan ddiwygiadau a wneir i Ddeddf Addysg 1996 gan y Rhan hon yn gymwys;
 - (c) mai dim ond i gorff sy'n gyfrifol am ysgol mewn ardaloedd penodedig y mae hawliau person a roddir gan ddiwygiadau a wneir i [^{F10}Ddeddf Cydraddoldeb 2010] gan y Rhan hon yn gymwys;
 - (d) mai dim ond i awdurdodau lleol penodedig y mae unrhyw ddyletswydd a osodir ar awdurdod lleol gan ddiwygiadau a wneir i [^{F11}Ddeddf Cydraddoldeb 2010] gan y Rhan hon yn gymwys;
 - (e) bod adroddiadau neu wybodaeth arall ar weithredu darpariaethau a dreialwyd yn cael eu darparu neu ei darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru gan Dribiwnlys Cymru, awdurdodau lleol a bennir o dan baragraffau (a), (b) neu (d) neu gyrff sy'n gyfrifol am ysgolion mewn ardaloedd a bennir o dan baragraff (c).
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru—
 - (a) cyhoeddi adroddiad ynghylch sut y rhoddwyd y darpariaethau a dreialwyd ar waith a pha mor effeithiol oeddynt o ran hyrwyddo llesiant plant, a
 - (b) gosod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (4) Caniateir i adroddiad o dan is-adran (3) gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn diwedd y cyfnod treialu; ond ni chaniateir iddo gael ei osod ar ddyddiad lai na 12 mis ar ôl dechrau'r cyfnod treialu.
- (5) Rhaid i adroddiad o dan is-adran (3) gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru heb fod yn hwyrach na 30 o fisoedd ar ôl i reoliadau o dan yr adran hon ddod i rym.

Diwygiadau Testunol

F9 Geiriau yn a. 17(1) wedi eu hamnewid (6.7.2011) gan Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1651), erglau. 1(2), **11(a)**

F10 Geiriau yn a. 17(2)(c) wedi eu hamnewid (6.7.2011) gan Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1651), erglau. 1(2), **11(b)(i)**

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/03/2012.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

F11 Geiriau yn a. 17(2)(d) wedi eu hamnewid (6.7.2011) gan Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1651), erglau. 1(2), **11(b)(ii)**

Gwybodaeth Cychwyn

I25 A. 17 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**

I26 A. 17 mewn grym ar 10.2.2012 gan O.S. 2012/320, **ergl. 2(f)**

18 Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch apelau a hawliadau gan blentyn **E+W**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud darpariaeth ynghylch—

- (a) hawliau plentyn i apelio i Dribiwnlys Cymru mewn cysylltiad â materion y mae gan riant hawl i apelio mewn perthynas â hwy o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996;
- (b) hawl person i wneud hawliad i Dribiwnlys Cymru mewn cysylltiad â materion y mae gan riant i'r person hwnnw hawl i wneud hawliad mewn perthynas â hwy o dan ^[F12]baragraff 3 o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ;
- (c) unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r cyfryw hawliau;
- (d) darparu cyngor a gwybodaeth i blant ynghylch materion sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig;
- (e) darparu cyngor a gwybodaeth i blant anabl ynghylch materion sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion;
- (f) gwasanaethau eirioli ynghylch anghenion addysgol arbennig neu wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion;
- (g) trefniadau gyda'r bwriad o osgoi neu ddatrys anghytundebau rhwng—
 - (i) ^[F13]awdurdod lleol] (ar y naill law) a phlentyn (ar y llaw arall) ynghylch arfer gan awdurdodau swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996;
 - (ii) perchennog ysgol berthnasol (ar y naill law) a phlentyn (ar y llaw arall) ynghylch darpariaeth addysgol arbennig (o fewn ystyr “special educational provision” yn adran 312(4) o Ddeddf Addysg 1996);
 - (iii) corff sy'n gyfrifol am ysgol (ar y naill law) a phlentyn anabl (ar y llaw arall) ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd.

(2) Mae'r pŵer i wneud gorchymyn o dan is-adran (1) yn cynnwys pŵer—

- (a) i ychwanegu, i ddileu neu i addasu hawliau;
- (b) i ddiwygio neu ddiddymu un neu fwy o ddarpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996;
- (c) i ddiwygio neu ddiddymu un neu fwy o ddarpariaethau ^[F14]Pennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac Atodlen 17 i'r Ddeddf honno ;
- (d) i wneud diwygiadau canlyniadol a diddymiaid i ddarpariaethau yn y Deddfau hynny.

(3) Ni chaniateir arfer y pŵer i wneud gorchymyn o dan yr adran hon—

- (a) cyn i adroddiad gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 17(3), neu
- (b) ar ôl cyfnod o 24 o fisoedd yn cychwyn ar ddiwrnod olaf y cyfnod treialu a bennir mewn rheoliadau o dan adran 17(1).

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/03/2012.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Diwygiadau Testunol

- F12** Geiriau yn a. 18(1)(b) wedi eu hamnewid (6.7.2011) gan Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1651), erglau. 1(2), **12(a)**
- F13** Geiriau yn Measure wedi eu hamnewid (5.5.2010) gan Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1148), **ergl. 5(2)**
- F14** Geiriau yn a. 18(2)(c) wedi eu hamnewid (6.7.2011) gan Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1651), erglau. 1(2), **12(b)**

Gwybodaeth Cychwyn

- I27** A. 18 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**
- I28** A. 18 mewn grym ar 10.2.2012 gan O.S. 2012/320, **ergl. 2(g)**

19 Dehongli adrannau 17 ac 18 **E+W**

(1) Yn adrannau 17 ac 18—

ystyr “awdurdodau lleol” (“local authorities”) yw ^{F15}awdurdodau lleol] yng Nghymru;

ystyr “perchennog” (“proprietor”) mewn perthynas ag ysgol yw'r person neu'r corff o bersonau sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol (a'i ystyr felly mewn perthynas ag ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig, neu ysgol feithrin a gynhelir, yw'r corff llywodraethu);

mae “plentyn” (“child”) yn cynnwys unrhyw berson nad yw eto'n 19 oed ac sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol;

mae i “plentyn anabl” (“disabled child”) yr ystyr sydd i “disabled child” ^{F16}ym mharagraff 6A o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010];

mae i “rhiant” (“parent”) yr ystyr a roddir i “parent” yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr “Tribiwnlys Cymru” (“Welsh Tribunal”) yw Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru;

ystyr “ysgol berthnasol” (“relevant school”) yw—

- ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir,
- uned cyfeirio disgyblion,
- ysgol annibynnol a enwir yn y datganiad a gedwir ar gyfer y plentyn o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996, neu
- ysgol a gymeradwyir o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr “ysgol a gynhelir” (“maintained school”) yw unrhyw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol neu unrhyw ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig nas sefydlwyd mewn ysbyty;

ystyr “ysgol feithrin a gynhelir” (“maintained nursery school”) yw ysgol feithrin a gynhelir gan ^{F13}awdurdod lleol] ac nad yw'n ysgol arbennig.

(2) At ddibenion adran 17(2)(c) ac 18(1)(g)(iii), penderfynir ar y corff sy'n gyfrifol am ysgol yn unol ^{F17}ag adran 85(9) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010].

(3) Mae awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn at ddibenion adran 17(2)(a) os yw'r plentyn yn ei ardal—

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/03/2012.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (a) a bod y plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir,
- (b) a bod addysg yn cael ei darparu ar gyfer y plentyn mewn ysgol nad yw'n ysgol a gynhelir neu'n ysgol feithrin a gynhelir, ond ei bod yn cael ei darparu felly ar gost yr awdurdod,
- (c) ac nad yw'r plentyn yn dod o fewn (a) neu (b), ond bod y plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a'i fod wedi ei ddwyn i sylw'r awdurdod am fod ganddo (neu am ei bod yn debygol bod ganddo) anghenion addysgol arbennig, neu
- (d) ac nad yw'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol, ond nad yw o dan ddwyflwydd oed neu dros oedran ysgol gorfodol a'i fod wedi ei ddwyn i sylw'r awdurdod am fod ganddo (neu am ei bod yn debygol bod ganddo) anghenion addysgol arbennig.

Diwygiadau Testunol

- F13** Geiriau yn [Measure](#) wedi eu hamnewid (5.5.2010) gan [Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant \(Integreiddio Swyddogaethau\) \(Cymru\) 2010 \(O.S. 2010/1148\)](#), [ergl. 5\(2\)](#)
- F15** Geiriau yn [a. 19\(1\)](#) wedi eu hamnewid (5.5.2010) gan [Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant \(Integreiddio Swyddogaethau\) \(Cymru\) 2010 \(O.S. 2010/1148\)](#), [erglau. 1, 5\(4\)](#)
- F16** Geiriau yn [a. 19\(1\)](#) wedi eu hamnewid (6.7.2011) gan [Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd \(Ysgolion\) \(Cymru\) 2011 \(O.S. 2011/1651\)](#), [erglau. 1\(2\), 13\(1\)\(a\)](#)
- F17** Geiriau yn [a. 19\(2\)](#) wedi eu hamnewid (6.7.2011) gan [Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd \(Ysgolion\) \(Cymru\) 2011 \(O.S. 2011/1651\)](#), [erglau. 1\(2\), 13\(1\)\(b\)](#)

Gwybodaeth Cychwyn

- I29** A. 19 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler [a. 26\(3\)](#)
- I30** A. 19 mewn grym ar 10.2.2012 gan [O.S. 2012/320](#), [ergl. 2\(h\)](#)

Diddymu ac ailddeddfu Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn y dyfodol

20 Pwerau mewn perthynas â diddymu ac ailddeddfu Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 **E+W**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys os diddymir ac ail-ddeddfir, gan Ddeddf Seneddol, Ran 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (wedi neu heb ei haddasu).
- (2) Yn is-adran (1) mae'r ymadrodd "diddymir ac ail-ddeddfir" yn cynnwys diddymu ac ailddeddfu cyn cychwyn y diddymiad ac ailddeddfiad.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn—
 - (a) gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i ddarpariaeth a wneir gan adrannau 9 i 16 o'r Mesur hwn, a
 - (b) gwneud y cyfryw ddarpariaeth arall ag y byddant o'r farn ei bod yn briodol iddynt ei gwneud yn sgil unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan baragraff (a).
- (4) Mae'r pŵer a roddir gan is-adran (3) yn cynnwys pŵer i ddiwygio neu ddiddymu unrhyw ddeddfiad (pa bryd bynnag y caiff ei basio neu ei wneud), gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur hwn.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/03/2012.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (5) Yn yr adran hon mae “deddfiad” yn cynnwys deddfiad a geir mewn is-ddeddfwriaeth, o fewn ystyr Deddf Ddehongli 1978 (p.30).

Gwybodaeth Cychwyn

- I31** A. 20 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**
I32 A. 20 mewn grym ar 11.6.2011 gan O.S. 2011/1468, **ergl. 2**

RHAN 2 **E+W**

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

Diwygiadau i Ran 7 o Ddeddf Addysg 2002

21 Y cyfnod sylfaen **E+W**

- (1) Diwygir Deddf Addysg 2002 (p. 32) yn unol â'r adran hon.
- (2) Yn adran 97 (dehongli Rhan 7)—
- yn y diffiniad o “assessment arrangements”, yn lle “stage”, bob tro y'i ceir, rhodder “phase”;
 - yn y diffiniad o “desirable outcomes”, yn lle “foundation stage” rhodder “foundation phase”;
 - yn y diffiniad o “the foundation stage”, yn lle “stage” rhodder “phase”.
- (3) Yn adrannau 102 (gan gynnwys y pennawd), yn lle “foundation stage”, bob tro y ceir y geiriau hynny, rhodder “foundation phase”.
- (4) Yn adran 103, hepgorer is-adran (1)(a).
- (5) Yn adran 104 (gan gynnwys y pennawd), yn lle “foundation stage”, bob tro y ceir y geiriau hynny, rhodder “foundation phase”.
- (6) Yn adran 105 (gan gynnwys yn y pennawd), hepgorer y gair “first,” bob tro y'i ceir.
- (7) Yn adran 108—
- yn lle “foundation stage”, bob tro y ceir y geiriau hynny, rhodder “foundation phase”;
 - yn is-adran (3), hepgorer y gair “first,”.
- (8) Yn adran 110 yn lle “foundation stage”, bob tro y ceir y geiriau hynny, rhodder “foundation phase”.

Gwybodaeth Cychwyn

- I33** A. 21 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**
I34 A. 21 mewn grym ar 1.9.2011 gan O.S. 2011/1951, **ergl. 2**

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/03/2012.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Diwygiadau i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000

22 **Hawliau mewn perthynas â'r cwricwlwm lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed** **E** **+W**

- (1) Diwygir Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21) yn unol â'r adran hon.
- (2) Yn adran 33F(1)(a), yn lle “ceases to be” rhodder “was not at the beginning of the entitlement period, or subsequently ceases to be,”.
- (3) Yn lle'r diffiniad o “academic year” yn adran 33N(1) rhodder y canlynol—
““academic year” means the period beginning on the fourth Monday of September in any year and ending on the first day of September in the following year;”.

Gwybodaeth Cychwyn

- I35** A. 22 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**
I36 A. 22 mewn grym ar 1.9.2011 gan O.S. 2011/1951, **ergl. 2**

Cyffredinol

23 **Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol** **E+W**

Mae'r Atodlen yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

Gwybodaeth Cychwyn

- I37** A. 23 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**
I38 A. 23 mewn grym ar 10.2.2012 at ddibenion penodedig gan O.S. 2012/320, **ergl. 2(i)**
I39 A. 23 mewn grym ar 6.3.2012 at ddibenion penodedig gan O.S. 2012/320, **ergl. 3(l)**

24 **Gorchmynion a rheoliadau** **E+W**

- (1) Mae unrhyw bŵer sy'n perthyn i Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.
- (2) Mae unrhyw bŵer sy'n perthyn i Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer—
 - (a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion neu ardaloedd gwahanol;
 - (b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;
 - (c) i wneud y cyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, darfodol, trosiannol neu arbed ag y gwêl Gweinidogion Cymru'n dda ei gwneud.
- (3) Mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan adran 17(1) yn ddarostyngedig i'w ddi-ddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (4) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol yn cynnwys gorchymyn o dan adran 18 neu 20 onid oes drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/03/2012.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I40 A. 24 mewn grym ar 9.2.2010, gweler a. 26(1)

25 Gorchymynion o dan adran 18: y weithdrefn **E+W**

- (1) Cyn gwneud gorchymyn o dan adran 18 rhaid i Weinidogion Cymru—
 - (a) ymgynghori â'r personau hynny sydd yn eu barn hwy'n gynrychioliadol o fuddiannau yr effeithir arnynt gan eu cynigion;
 - (b) rhoi sylw i ganfyddiadau eu hadroddiad o dan adran 17(3).
- (2) Os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori o dan is-adran (1), yn arfaethu gwneud gorchymyn o dan adran 18, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddogfen yn cynnwys—
 - (a) esboniad o'r cynigion,
 - (b) drafft o'r gorchymyn arfaethedig, ac
 - (c) manylion yr ymgynghoriad o dan is-adran (1)(a).
- (3) Os gosodir dogfen gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (2), rhaid i ddrafft o orchymyn o dan adran 18 i roi effaith i'r cynigion (wedi neu heb eu haddasu) beidio â chael ei osod gerbron y Cynulliad hyd oni fydd cyfnod o drigain o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod y gosodwyd y ddogfen wedi dod i ben.
- (4) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllir yn is-adran (3) nid yw unrhyw amser pan fo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol mewn cyfnod o doriad o fwy na phedwar diwrnod i'w gyfrif.
- (5) Wrth baratoi gorchymyn drafft o dan adran 18 rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw gynrychioliadau a wnaed yn ystod y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (3).
- (6) Rhaid i ddatganiad gan Weinidogion Cymru fynd gyda gorchymyn drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n unol ag adran 24(4) a rhaid i'r datganiad roi manylion ynghylch—
 - (a) unrhyw gynrychioliadau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt yn unol ag is-adran (5), a
 - (b) unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion a gaiff eu cynnwys yn y ddogfen a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (2).

Gwybodaeth Cychwyn

I41 A. 25 mewn grym ar 9.2.2010, gweler a. 26(1)

26 Cychwyn **E+W**

- (1) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwedd cyfnod o ddeufis yn cychwyn ar y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor—
 - adran 24,
 - adran 25,
 - yr adran hon,
 - adran 27.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/03/2012.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (2) Daw paragraffau 10 i 12 o'r Atodlen i rym ar y diwrnod pan gymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor.
- (3) Daw gweddill darpariaethau'r Mesur hwn [F18(gan gynnwys, yn achos darpariaethau a ddiwygiwyd gan Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011, y darpariaethau hynny fel y'u diwygiwyd)] i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

Diwygiadau Testunol

F18 Geiriau yn a. 26(3) wedi eu mewnosod (6.7.2011) gan Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1651), erglau. 1(2), 13(2)

Gwybodaeth Cychwyn

I42 A. 26 mewn grym ar 9.2.2010, gweler a. 26(1)

27 Enw byr **E+W**

Enw'r Mesur hwn yw Mesur Addysg (Cymru) 2009.

Gwybodaeth Cychwyn

I43 A. 27 mewn grym ar 9.2.2010, gweler a. 26(1)

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/03/2012.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

YR ATODLEN **E+W**

(a gyflwynir gan adran 23)

MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

Deddf Addysg 1996 (p. 56)

1 Diwygier Deddf Addysg 1996 fel a ganlyn.

Gwybodaeth Cychwyn

I44 Atod. para. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**

I45 Atod. para. 1 mewn grym ar 10.2.2012 gan O.S. 2012/320, **ergl. 2(j)**

2 Yn adran 326(4) (apêl yn erbyn cynnwys datganiad)—

(a) ym mharagraff (b), hepgorer yr atalnod llawn ac ar ôl “school” mewnosoder “, or”;

(b) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

“(c) in the case of proceedings relating to a statement maintained by a local education authority in Wales only, the child has proposed the school in the proceedings (whether or not the parent, the local education authority or both have also proposed the school).”.

Gwybodaeth Cychwyn

I46 Atod. para. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**

I47 Atod. para. 2 mewn grym ar 6.3.2012 gan O.S. 2012/320, **ergl. 3(m)**

3 Yn adran 326A (apelau nas gwrthwynebir), yn is-adran (1)(a), yn lle “the parent of a child has appealed to the Tribunal under section 325, 328, 329 or 329A or paragraph 8(3) of Schedule 27 against a decision of a local education authority, and” rhodder—

“either—

(i) the parent of a child has appealed to the Tribunal under section 325, 328, 329 or 329A or paragraph 8(3) of Schedule 27 against a decision of a local education authority in England or Wales, or

(ii) the child has appealed to the Tribunal under section 325, 328, 329 or 329A or paragraph 8(3) of Schedule 27 against a decision of a local education authority in Wales, and”.

Gwybodaeth Cychwyn

I48 Atod. para. 3 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**

I49 Atod. para. 3 mewn grym ar 6.3.2012 gan O.S. 2012/320, **ergl. 3(m)**

4 Yn adran 333 (cyfansoddiad Tribiwnlys Cymru), yn is-adran (1ZB), yn lle “this section and sections 334 to 336ZB” rhodder “this Part”.

Gwybodaeth Cychwyn

I50 Atod. para. 4 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/03/2012.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

I51 Atod. para. 4 mewn grym ar 10.2.2012 gan O.S. 2012/320, **ergl. 2(j)**

- 5 Yn Atodlen 27 (gwneud a chadw datganiadau o dan adran 324)—
- (a) ym mharagraff 8(1)(b)(iv), yn lle “the parent has appealed” rhodder “there is an appeal”;
 - (b) ym mharagraff 11(4), yn lle “the parent of the child appeals” rhodder “there is an appeal”;
 - (c) ym mharagraff 11(5)(a), yn lle “the parent of the child has appealed” rhodder “there has been an appeal”.

Gwybodaeth Cychwyn

- I52** Atod. para. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**
I53 Atod. para. 5 mewn grym ar 6.3.2012 gan O.S. 2012/320, **ergl. 3(m)**

Gwybodaeth Cychwyn

- I44** Atod. para. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**
I45 Atod. para. 1 mewn grym ar 10.2.2012 gan O.S. 2012/320, **ergl. 2(j)**
I46 Atod. para. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**
I47 Atod. para. 2 mewn grym ar 6.3.2012 gan O.S. 2012/320, **ergl. 3(m)**
I48 Atod. para. 3 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**
I49 Atod. para. 3 mewn grym ar 6.3.2012 gan O.S. 2012/320, **ergl. 3(m)**
I50 Atod. para. 4 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**
I51 Atod. para. 4 mewn grym ar 10.2.2012 gan O.S. 2012/320, **ergl. 2(j)**
I52 Atod. para. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**
I53 Atod. para. 5 mewn grym ar 6.3.2012 gan O.S. 2012/320, **ergl. 3(m)**

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (p.50)

F19⁶

Diwygiadau Testunol

- F19** Atod. parau. 6-9 wedi ei hepgor (6.7.2011) yn rhinwedd Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1651), **erglau. 1(2), 13(3)**

F19⁷

Diwygiadau Testunol

- F19** Atod. parau. 6-9 wedi ei hepgor (6.7.2011) yn rhinwedd Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1651), **erglau. 1(2), 13(3)**

F19⁸

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/03/2012.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Diwygiadau Testunol

F19 Atod. parau. 6-9 wedi ei hepgor (6.7.2011) yn rhinwedd [Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd \(Ysgolion\) \(Cymru\) 2011 \(O.S. 2011/1651\)](#), erglau. 1(2), **13(3)**

F19g

Diwygiadau Testunol

F19 Atod. parau. 6-9 wedi ei hepgor (6.7.2011) yn rhinwedd [Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar sail Anabledd \(Ysgolion\) \(Cymru\) 2011 \(O.S. 2011/1651\)](#), erglau. 1(2), **13(3)**

Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40)

10 Diwygir adran 162 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 fel a ganlyn.

Gwybodaeth Cychwyn

I54 Atod. para. 10 mewn grym ar 9.12.2009, gweler a. **26(2)**

11 Yn lle is-adran (5A) rhodder—

“(5A) The Welsh Ministers may by order—

- (a) make such provision as appears to them to be appropriate for the purpose of—
 - (i) repealing any reference in a Measure of the National Assembly for Wales to a local education authority (however expressed), and
 - (ii) replacing it, where it appears to them to be appropriate, with a reference (however expressed) to a Welsh local authority;
- (b) make such provision as appears to them to be appropriate in consequence of or in connection with any provision made by virtue of paragraph (a).

(5B) An order under subsection (5A) may make provision modifying any enactment whenever passed or made, and may, in particular, make provision of the kind specified in paragraphs (a) to (e) of subsection (2).”.

Gwybodaeth Cychwyn

I55 Atod. para. 11 mewn grym ar 9.12.2009, gweler a. **26(2)**

12 Ar ôl is-adran (6) mewnosoder—

“(7) In interpreting paragraphs (a) to (e) of subsection (2) for the purposes of subsection (5B), “statutory provision” also includes any provision of a Measure of the National Assembly for Wales, including any Measure passed after the Education (Wales) Measure 2009.”.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/03/2012.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I56 Atod. para. 12 mewn grym ar 9.12.2009, gweler a. 26(2)

Statws

Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/03/2012.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:

Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.